

Maniffesto gan



Tirweddau
Cymru
Landscapes
Wales



Fframwaith Polisi ar gyfer Natur, Diwylliant, Cymunedau, a Chenedlaethau'r Dyfodol

Wrth i Etholiad y Senedd 2026 nesáu yng Nghymru, mae **Tirweddau Cymru** yn galw ar bob plaid wleidyddol i gydnabod rôl hanfodol Tirweddau Dynodedig o ran cyflawni canlyniadau amgylcheddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd i'r genedl.

Mae Tirweddau Cenedlaethol (a elwid yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gynt) a Pharciau Cenedlaethol Cymru yn gorchuddio 25% o Gymru, ac nid mannau hardd neu fannau ar gyfer hamddena yn unig mohonynt. Maent yn dirweddau hollbwysig sy'n ategu natur, economïau lleol, cyflenwadau dŵr, hunaniaeth ddiwylliannol – yn cynnwys y Gymraeg – a'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd. Yn y ddogfen hon, pennir agenda glir a chydweithredol gogyfer cydweddu polisiau a buddsoddiadau yn y meysydd hanfodol hyn.

Rydym yn cefnogi dull partneriaeth. Fel rhanddeiliaid hollbwysig yn y tirweddau hyn, gyda chyfrifoldeb statudol tuag atynt, rydym yn barod i arwain y gwaith o gyflawni camau sy'n seiliedig ar leoedd ac sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, a ategir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o dir Tirweddau Dynodedig mewn dwylo preifat, felly caiff popeth a wnawn ei wneud ar y cyd â chyrff rheoli cymunedau lleol, a rheolwyr tir.



**Tirweddau
Cymru
Landscapes
Wales**

Mae **Tirweddau Cymru
Landscapes Wales** yn
Bartneriaeth o Dirweddau
Dynodedig Cymru.



Parc Cenedlaethol

Tirweddau Cenedlaethol



Ein galwad i weithredu

1. Cryfhau adferiad natur

- Cryfhau'r Ddyletswydd Sylw er mwyn sicrhau bod cyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn hyrwyddo dibenion Tirweddau Dynodedig yn eu swyddogaethau a'u penderfyniadau.
- Pwysleisio bod adferiad natur yn rhan hollbwysig o ddibenion statudol presennol Tirweddau Dynodedig, sy'n cynnwys adfer natur ochr yn ochr â chadwraeth a mwynhad y cyhoedd. Gwneud defnydd o argymhellion adroddiad newydd gan Gymdeithas Ecollegol Prydain.
- Rhoi adnoddau i Dirweddau Dynodedig fel y gellir parhau i gyflawni adferiad natur ar raddfa tirwedd a chyfrannu at yr ymrwymiad 30x30 (sef diogelu 30% o'r tir a'r môr erbyn 2030). Yn cynnwys cymorth ar gyfer Ffermio Bro: Ffermio mewn tirweddau dynodedig.

2. Ysgogi gweithredu ar newid hinsawdd a'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd

- Cefnogi Tirweddau Dynodedig fel canolfannau ar gyfer arloesi a phontio teg tuag at gymunedau gwydn, gan ddiogelu dŵr, bwyd ac ynni, ynghyd ag integreiddio atebion sy'n seiliedig ar natur mewn llwybrau datgarboneiddio cenedlaethol.
- Pennu mandadau polisi clir sy'n cysylltu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Cymru Sero Net gyda gwaith ymarferol ar lawr gwlad, gan alluogi Tirweddau Dynodedig i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
- Darparu cymorth penodol ar gyfer adfer mawndiroedd, ymestyn coetiroedd, ffermio agroecolegol / atgynhyrchiol, a rheoli llifogydd, gan ddefnyddio arbenigedd a gwybodaeth Tirweddau Dynodedig, yn cynnwys trwy gyfrwng Ffermio Bro.



3. Buddsoddi yn ein cymunedau

- Cydnabod arweinyddiaeth wledig unigryw Tirweddau Dynodedig a chymorth i fodolau cyllido cynaliadwy fel y gellir cyflawni blaenoriaethau economaidd gwledig, diwylliannol a chymdeithasol ochr yn ochr â nodau amgylcheddol.
- Datblygu polisïau teg sy'n adlewyrchu iaith, treftadaeth a diwylliant Cymru ym mhrosesau penderfynu a dulliau rheoli Tirweddau Dynodedig.
- Cefnogi twristiaeth atgynhyrchiol, gan sicrhau bod y sector yn cynnig arbenigedd rhagorol ar gyfer ymwelwyr tra'n cyfrannu hefyd at gymunedau lleol.

4. Galluogi mynediad, llesiant a chynhwysiant

- Buddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol hygyrch ar gyfer mynd a dod i Dirweddau Dynodedig, gan sicrhau y gall pawb yng Nghymru elwa ar y manau hyn er budd iechyd, llesiant a chysylltiad diwylliannol.
- Creu Gwasanaeth Iechyd Natur i Gymru, gan ymgysylltu â Thirweddau Dynodedig er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol, problemau iechyd meddwl ac anghydraddoldebau iechyd. Yn cynnwys mentrau fel presgripsiynu cymdeithasol, a all helpu i leihau pwysau ar y GIG trwy fynd i'r afael ag achosion salwch yn hytrach na thrin y symptomau'n unig.
- Cynorthwyo i ddatblygu Tirlun, dysgu awyr agored trwy gyfrwng tirweddau Cymru, lle bydd modd i holl blant Cymru ymweld â Thirwedd Dynodedig cyn iddynt adael yr ysgol gynradd.



5. Cefnogi llywodraethu a chydweithredu effeithiol

- Ystyried gwelliannau i effeithlonrwydd cyrff Tirweddau Dynodedig yng Nghymru, a'r broses o'u moderneiddio.
- Ymwreiddio Tirweddau Dynodedig mewn fframweithiau polisi amgylcheddol, defnydd tir a gofodol ehangach er mwyn esgor ar yr effaith fwyaf, a ategir gan Ddyletswydd gryfach (1 uchod).
- Cynnig sefydlogrwydd mewn cylchoedd cyllido er mwyn i raglenni cyflawni trawsnewidiol, hirdymor allu denu a rheoli cyllid cyfunol.

Ein gweledigaeth:

Gyda'r ymrwymïadau hyn yn gefn inni, bydd modd i Dirweddau Dynodedig yng Nghymru wneud y canlynol:

- Cyflawni er budd natur, yr hinsawdd, iechyd, llesiant, diwylliant a chymunedau, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cymryd yr awenau o ran gweithredu ar newid hinsawdd/addasu i newid hinsawdd, adfer natur, a thwristiaeth atgynhyrchiol.
- Ysbrydoli'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol i gysylltu â harddwch naturiol eithriadol Tirweddau Dynodedig, ynghyd â gofalu am yr harddwch hwnnw, gan ysgogi balchder ehangach yn nhirweddau Cymru.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, rhanddeiliaid, cymunedau gwledig a'r gymdeithas ehangach i wireddu'r weledigaeth hon.

